**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 8 Chwefror, 2024**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Wynne Davies

Gareth Roberts

Einir Lewis

Dafydd Ll Williams

Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

Eleri Williams ac Arwel Parry (Pwyllgor Cae Chwarae Rhydyclafdy)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rhys Jones (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Tesni Jones, a'r Cynghorydd Nia M Jones.

**<u>Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd</u>**
Cadarnhawyd bod cofnodion 11/01/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

Nid oedd materion newydd yn codi.

**<u>Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy</u>**
Bu i Eleri Williams ac Arwel Parry ymuno gyda'r cyfarfod heno er mwyn trafod Cynllun Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy.

Nodwyd Eleri eu bod yn cychwyn y gwaith mis Mehefin. Cytunwyd Eleri ac Arwel y byddent yn cysylltu gyda Chwmni Yswiriant eu hunain er mwyn cael pris.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ffonio Zurich er mwyn trio cael ymateb gwell, a phenderfynwyd y byddem yn asesu'r prîs ac yn gwneud penderfyniad o fewn y mis.

Nodwyd Eleri eu wedi bod yn llwyddiannus yn cael grant arall o £1,000 er mwyn cael dau wely plannu, dwy fainc bicnic, un mainc a thri "planter".

**Materion yn codi**

Bu i ni drafod arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Gwmni Lightsource o'r Paneli Solar. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda hwynt eto, er mwyn eu holi pryd yr ydym yn debygol o dderbyn y arian yma.

Nodwyd ein bod wedi derbyn £100 gan Lord Newborough. Cytunwyd i'r Clerc ddiolch iddynt am eu cyfraniad ariannol.

**Gohebiaeth**

Trafodwyd ebost Bethan Williams ynghlyn a chyfraniad at Apêl Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru – Sir Gaernarfon 2025. Cytunwyd na fyddem yn cyfrannu y tro hwn. Clerc i yrru ebost yn esbonio hyn.

Trafodwyd ebost Elin Jones, Swyddog Cefnogi Ffermwyr Ieuainc Eryri. Cytunwyd na fyddem yn cyfrannu y tro hwn. Clerc i yrru ebost yn esbonio hyn.

Trafodwyd ebost Haydn Jones (Clerc Cymuned Llannor) ynghlyn a gosod plac/cofeb ger Safle'r Eisteddfod. Cytunwyd y byddem yn cefnogi'r prosiect.
Cynnigwyd Wynne Davies garreg "gil bost" sydd yn ei feddiant.
Cynnigwyd leoli'r gofeb/plac wrth ymyl y bocs AA, wrth ochr yr Eglwys ym Moduan. Cynnigwyd Einir y byddai'n syniad defnyddio un o gwpledi Iestyn Tyne a cafodd eu ysgrifennu ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cytunwyd i Einir eu 'hebostio i'r Clerc fel y gall Nia eu rhannu gyda Haydn.

**Cais Cynllunio**

Trafodwyd Rhif Cais : C24/0054/33/DT – Carneddol, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7PT – Estyniad deulawr ac unllawr i gefn yr eiddo. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais a cytunwyd i'r Clerc yrru neges i Cynllunio.

Nid oedd unrhyw Gynghorydd yn datgan diddordeb.

Yn dilyn o gyfarfod Mis Ionawr bu i'r Clerc gysylltu gyda'r Tim Gorfodaeth Cynllunio er mwyn adrodd bod sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd nad oes neb wedi gweld cais cynllunio yn cyfeirio at hyn. Er mwyn edrych i mewn i'r mater mae'r Adran wedi agor rhif achos ar gyfer

y gwyn sef G23/0281.  Er i'r Clerc gysylltu hefo hwy 12/01/24, nid oes ymateb i sail y gwyn wedi ein cyrraedd eto. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu yn ôl a hwy.

Gofynnodd Annwen Davies (Cynghorydd Sirol) i'r Clerc i gysylltu gyda Huw Elfed Roberts (Swyddog Etholiadau – Cyngor Gwynedd) er mwyn gofyn beth oedd côd post yr eiddo a hefyd gofyn am enw llawn y perchennog.

**<u>Materion ariannol</u>**

Cysoniad banc o ddyddiad:

04/12/23 – 03/01/24 - £2,975.27c
04/01/24 – 03/02/24 - £1,984.98c

Cafodd 6 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200780 | Cyflog y Clerc (Mis 10) Gwahaniaeth yn dilyn codiad cyflog y Clerc | £41.61 |
| Siec Rhif 200781 | Cyllid a Thollau (Mis 10) Gwahaniaeth yn dilyn codiad cyflog y Clerc | £10.60 |
| Siec Rhif 200782 | Cyflog y Clerc (Mis 11) | £153.60 |
| Siec Rhif 200783 | Cyllid a Thollau (Mis 11) | £38.40 |
| Siec Rhif 200784 | Costau Teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200785 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |

Arwyddwyd "Cytundeb gwaith newydd y Clerc" gan y Cadeirydd.

**Unrhyw fater arall**

Trafodwyd y gwaith tendro ar gyfer Torri Gwellt a chlirio mynwentydd am y flwyddyn 2024/2025.  Cytunwyd y byddem yn gofyn wrth 5 Cwmni dendro am y gwaith yma.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn paratoi'r gwaith papur, ac yn eu postio i'r contractwyr mor fuan a phosib, ac yna gofyn i'r prisau gael eu dychwelyd i'r Clerc mewn amlen rhagdaledig erbyn 1af Ebrill, 2024.

Nodwyd AD ei bod wedi derbyn cwynion ynghlyn a Phont Bodefail.  Nodwyd bod Cwmni Alun Griffiths wedi bod yno yn ail agor "manhole", cafwyd gwaith o dorri'r tarmac a gosod "manhole" ddwbl ei wneud yn syth.

Nodwyd bod arwydd BODUAN wedi cael ei dynnu oddiar y bocs blodau sydd wedi ei leoli yn Pant Tacho.  Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd yn gofyn am yr un newydd.

Nodwyd bod twll hegar yn y lôn, wrth ddwad i mewn i bentref Rhydyclafdy o gyfeiriad Efailnewydd, wrth yr arwydd "20".  Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i adrodd.

Gofynnwyd i Phil gysylltu gyda Ken Jones i drafod y gwaith concritio.

Gofynodd y Cadeirydd i'r Clerc gysylltu gyda "Unllais Cymru" ynghlyn a mater sydd gennym o wasanaeth rydym yn ei ddefnyddio, ddim yn cyfnewid sieciau i mewn i'w cyfrif banc.  Erbyn hyn mae yna wyth siec heb eu cyflwyno.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 14/03/24 yn Tu Hwnt i'r Afon am 7.30yh.